# TANIO'R GOLAU

## Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth yr Esgob

16eg Ionawr 2022

Mae Clare a minnau newydd orffen cadw'r addurniadau Nadolig am flwyddyn arall. A dweud y gwir, un o'r tasgau cyn y Nadolig rwy'n eu cofio o'm plentyndod yw goleuo'r goeden Nadolig. Fe fydden ni fel teulu'n treulio oriau'n addurno, y tinsel a'r goleuadau, ac, ar ôl hynny i gyd, gwasgu swîts y goleuadau a .... dim! Fyddai'r goleuadau ddim yn gweithio. Fe fyddai'n rhaid mynd trwy bob un bylb, ei sgriwio'n dynn i'r soced, ac, os bydden ni'n lwcus, wrth sgriwio'r olaf un, "Wow!" byddai'r goeden yn goleuo. Ond, os na fyddai, byddai'n rhaid ceisio newid pob un bylb nes canfod yr un oedd wedi ffiwsio. A doedd dim ots pa mor ofalus fyddech chi wrth eu cadw ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddai'n rhaid mynd trwy'r un rig-marôl wrth ddadbacio'r flwyddyn ganlynol. Mae pethau'n llawer haws y dyddiau hyn. Mae goleuadau LED yn llawer mwy llachar, yn gryfach a dydyn nhw ddim yn torri, er pwyswch y botwm anghywir ar y rimôt, a bydd pob math o batrymau fflachio rhyfeddol yn ymddangos.

Eleni, mae'r esgobaeth wedi dewis ffocws newydd ar gyfer ein bywyd cyffredin. Roedd 'Datgloi ein Potensial' yn fuddiol iawn i ni fel arwyddair, ond, wrth i ni wynebu'r dyfodol, mae'n rhaid i ni ail ganolbwyntio o'r newydd ar ein bywyd cyffredin. Felly: daw "Tyfu'r FFYDD, dod â GOBAITH, dangos CARIAD" yn arwyddair i ni, ac mae'n cael ei gynnig fel canolbwynt i bob dim y byddwn yn ei wneud. Efallai y bydd y rhai sydd wedi alaru ar bethau o'r fath yn dweud "O na! Dim menter arall", ond, mewn gwirionedd, nid galwad yw hyn o roi'r gorau i bopeth roedden ni'n ei wneud o'r blaen oherwydd bod yna syniad newydd sgleiniog wedi treiddio i bennau arweinyddion yr esgobaeth. Y bwriad yw y bydd yn ein hatgoffao pam ein bod yn gwneud popeth rydyn ni'n ei wneud yn y lle cyntaf. Galwodd Iesu ei hunan arnom ni i fod â ffydd ynddo, felly beth am i ni dyfu'r ffydd honno, a gwahodd eraill i'w rhannu hefyd. Mae Cristnogion yn gludwyr gobaith am fywyd tragwyddol, felly beth am fod yn bositif ac yn llawn gobaith wrth gysylltu â phobl eraill. Gorchmynnodd Iesu ni garu ein gilydd, ac i fod y rhai sy'n gweini, beth am i ni ddangos y cariad hwnnw gyda'r gwasanaeth rydym ni'n ei gymryd i, ac ar gyfer, y cymunedau lle rydyn ni.

Fel profi'r gadwyn o oleuadau i wneud yn siŵr fod pob un yn gweithio, rydyn ni'n cael ein gwahodd i brofi ein gwaith fel disgyblion Iesu, a'n gweithgareddau fel Eglwysi, i weld a yw'r rhain yn trosglwyddo trydan gras Duw ac yn helpu i oleuo'r byd. A yw ein ffydd yn cael ei bwydo gan weddi ac addoliad? A fyddai'r rhai sy'n mynychu ein heglwysi yn canfod y maeth i dyfu eu ffydd? A yw'r ffordd mae'r Eglwys yn cyfathrebu yn anfon neges bositif, a ydyn ni'n annog y naill a'r llall yn frwdfrydig, ac yn dod â gobaith i fyd ac i gymdeithas sydd wedi dioddef cymaint gyda'r oll sydd wedi digwydd? A yw ansawdd ein cyfeillgarwch a'n perthynasau yn un o wasanaeth a gwir gariad? A yw calendr ein gweithgareddau Eglwysig yn dystiolaeth eu bod yn codi o wasanaeth cariadus i'n cymunedau, neu ddim ond i ni'n hunain? A yw'r gweithgareddau yn ein heglwysi'n ychwanegu at oleuni tystiolaeth Duw yn ein bywydau cyffredin?

Weithiau, mae blwyddyn newydd yn achlysur i wneud Addunedau Blwyddyn Newydd. Nid yw hanes yr addunedau hynny bob amser yn ddisglair. Ond, efallai, wrth i ni gadw addurniadau'r Nadolig am ddeuddeg mis arall, gallwn ofyn yn ein gweddïau o flaen Duw ac yn ein pwyllgorau Eglwysig, a ydym ni, yn unigol fel disgyblion a gyda'n gilydd fel Eglwysi, erbyn hyn yn dechrau ar waith gwirioneddol y Nadolig, i ogoneddu Duw yn y goruchaf ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith dynion sydd wrth ei fodd (Luc 2.14) ac i wneud beth sy'n iawn, caru ffyddlondeb a rhodio'n ostyngedig gyda Duw (Micha 6.8), i dyfu ffydd, dod â gobaith a dangos cariad?